Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Jeremy Miles AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

29 Hydref 2020

Annwyl Jeremy,

**Gwahoddiad i'r cyfarfod Pwyllgor mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22**

Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 a bydd yn dechrau cymryd tystiolaeth ffurfiol ar 14 Rhagfyr 2020 pan fydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn y cyfarfod Pwyllgor.

Yn sicr, bydd yr ansicrwydd parhaus yn sgil pandemig COVID-19 a diwedd y cyfnod pontio ar ôl Brexit yn effeithio ar y gyllideb eleni. O ystyried eich rôl yn cydgysylltu adferiad Cymru o bandemig COVID-19 ac wrth gydgysylltu'r gwaith ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i sesiwn dystiolaeth ffurfiol ym mis Ionawr 2021, i'n helpu yn ein gwaith craffu ar y gyllideb.

Gall y Pwyllgor gadarnhau'r dyddiad pan fydd y Pwyllgor Busnes wedi trafod amserlen y Pwyllgor ar gyfer tymor y gwanwyn yn 2021.

Yn gywir,



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565